

HYSBYSIAD O ORCHYMYN TRAFFIG DROS DRO

CYNGOR SIR Y FFLINT

Hysbysiad o Orchymyn i Wahardd Cerddwyr Dros Dro Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 - Adran 14 Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 36 yng nghymuned Cei Connah

Mae Cyngor Sir y Fflint, drwy hyn, yn bwriadu gwneud Gorchymyn, dim cynt na 7 diwrnod ar ôl 24 Medi 2015 a fydd yn gwahardd cerddwyr rhag defnyddio'r rhan honno o Llwybr Troed Cyhoeddus rhif 36 yng nghymuned Cei Connah ym Mharc Gwepa rhwng pwynt yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol 32920 36781 a'r gyffordd â Llwybr Troed Cyhoeddus rhif 23 yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol 32889 36763.

Mae angen cau'r llwybr er mwyn i Wasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir y Fflint, neu gwmni arall ar ei ran, fedru cael gwared â stepiau.

Disgwylir y daw'r Gorchymyn i rym ar 12 Hydref 2015, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Mae'n debyg y bydd y llwybr ar gau am chwe wythnos, oni chaiff y gwaith ei gwblhau cyn hynny, ond dim mwy na chwe mis fan bellaf.

Dyddiedig 24 Medi 2015



Gareth Owens

Prif Swyddog (Llywodraethu)

Neuadd y Sir

Yr Wyddgrug

Sir y Fflint

DT/T468005